OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 1181

## Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Apelau) (Cymru) 2018

## RHAN 4

### Penderfynu ar apêl

**Penderfynu ar apêl**

**10.**—(1) Mae apêl o dan y Rheoliadau hyn i'w benderfynu gan Weinidogion Cymru.

(2) At ddibenion paragraff (1), caiff Gweinidogion Cymru benodi person ("y person penodedig") i adrodd i Weinidogion Cymru.

**Pwerau Gweinidogion Cymru pan fyddant yn penderfynu ar apêl**

**11.**—(1) Wrth benderfynu ar apêl yn erbyn penderfyniad—

(a) caiff Gweinidogion Cymru gadarnhau'r penderfyniad neu amnewid y penderfyniad, a

(b) mae gan Weinidogion Cymru yr un pwerau a dyletswyddau â'r corff cymeradwyo wrth wneud y penderfyniad.

(2) Wrth gadarnhau penderfyniad ynghylch cais am gymeradwyaeth, caiff Gweinidogion Cymru addasu'r penderfyniad drwy ddileu, amnewid neu osod amodau cymeradwyo.

(3) Cymerir bod penderfyniad neu amod a amnewidir neu a osodir gan Weinidogion Cymru yn benderfyniad a wnaed, neu'n amod a osodwyd, gan y corff cymeradwyo.

**Dyletswyddau penodol**

**12.**—(1) Wrth amnewid neu addasu penderfyniad ynghylch cais am gymeradwyaeth, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i—

(a) y safonau cenedlaethol ar gyfer draenio cynaliadwy, a

(b) unrhyw ganllawiau a ddyroddir o dan baragraff 15 o Atodlen 3.

(2) Wrth amnewid penderfyniad ynghylch archiad i fabwysiadu, rhaid i Weinidogion Cymru, wrth ystyried p'un a ydynt wedi eu bodloni ai peidio ynghylch Amod 2 ym mharagraff 17 o Atodlen 3, roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir o dan is-baragraff (4) o'r paragraff hwnnw.

(3) Wrth amnewid neu osod amod, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i—

(a) ar gyfer amod sy'n pennu bond methu â chyflawni, unrhyw ganllawiau a ddyroddir o dan baragraff 12(6) o Atodlen 3, a

(b) y safonau cenedlaethol ar gyfer draenio cynaliadwy.